ASA

Canlyniadau o Adolygiad Sefydliadol yng Nghymru

Rhan tri: Trefniadau'r sefydliadau ar gyfer ymgysylltu â myfyrwyr a'r byd ehangach

Rhannu arfer da

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2010
ISBN 978 1 84979 076 5
Mae holl gyhoeddiadau ASA ar gael ar ein gwefan www.qaa.ac.uk
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Crynodeb cyffredinol

Mae'r ystyriaeth a roddwyd i 12 adroddiad yr Adolygiad Sefydliadol a gyhoeddwyd rhwng Hydref 2004 ac Awst 2009 yn awgrymu bod gan sefydliadau yng Nghymru weithdrefnau effeithiol ar gyfer cynrychioli myfyrwyr, ar gyfer sicrhau adborth ac ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau gan fyfyrwyr. Ymhellach, roedd yr adroddiadau'n dangos bod gan sefydliadau bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli darpariaeth gydweithredol.

Yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yn yr astudiaeth yma, roedd gan sefydliadau yng Nghymru fecanweithiau i sicrhau bod myfyrwyr wedi'u cynrychioli mewn fforymau trafod a phenderfynu ar lefel sefydliadol, a hynny drwy undeb y myfyrwyr neu gyrff cynrychioli tebyg fel arfer. Er bod y trefniadau'n amrywio o un sefydliad i'r llall, roedd y myfyrwyr fel arfer wedi'u cynrychioli ar gyrff tebyg ar lefelau cyfadran, ysgol, adran neu raglen. Roedd y lefelau llwyddiant mewn cynrychioliad yn amrywio weithiau ar lefelau cyfadran ac ysgol neu ar gyfer categorïau myfyrwyr arbennig. Byddai barn y myfyrwyr wedi'i chymryd i ystyriaeth yn aml mewn prosesau sicrhau ansawdd. Cafwyd bod cyrff cynrychioli myfyrwyr yn chwarae rhan bwysig mewn sicrhau llwyddiant trefniadau o'r fath, yn arbennig mewn pennu a hyfforddi cynrychiolwyr y myfyrwyr. Gwelwyd bod rhai sefydliadau'n gwneud trefniadau arbennig i sicrhau bod myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig wedi'u cynrychioli'n gywir.

Cafwyd bod trefniadau cryf gan sefydliadau ar gyfer casglu a dadansoddi adborth myfyrwyr ac ymateb iddo, ac roedd llawer o ddefnyddio holiaduron ar lefel modiwl, rhaglen ac adran gwasanaeth a defnydd strategol wedi'i wneud o ganlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC). Casglwyd adborth gan bob categori o fyfyriwr, yn cynnwys dysgwyr o bell a'r rheiny mewn sefydliadau partner. Un maes a nodwyd yn yr adroddiad fel un sydd angen ei ddatblygu rhywfaint yw 'cau'r ddolen' drwy hysbysu myfyrwyr am yr hyn a wnaethpwyd mewn ymateb i'w hadborth. Mewn nifer o adroddiadau nodwyd esiamplau o arfer da yn y ffordd y defnyddiwyd barn cyflogwyr. Fodd bynnag, roedd y gwaith o gasglu a defnyddio adborth gan raddedigion ar gam cynnar yn ei ddatblygiad ac yn brin o gyfeiriad strategol.

Er bod trefnau cwyno ac apelio myfyrwyr yn newid rhywfaint ar amser cyhoeddi'r adroddiadau adolygiad yma, roeddent wedi'u disgrifio mewn termau positif ar y cyfan. Yn fwy na dim roedd y gweithdrefnau'n glir a rhesymegol ac yn cael eu monitro'n ofalus o fewn y sefydliad. Roedd gweithdrefnau ffurfiol wedi'u cydbwyso'n aml iawn gan bwyslais ar ddulliau anffurfiol, er mwyn sicrhau ateb cyflym i faterion sy'n achosi pryder, ac roedd cyrff cynrychioli myfyrwyr unwaith eto'n chwarae rhan bwysig a phositif. Er bod gan sefydliadau ar y cyfan drefniadau gofalus i wneud myfyrwyr yn ymwybodol o weithdrefnau yn y maes yma, canfuwyd nifer o gyfleoedd ar gyfer gwella (y mwyafrif ohonynt yn rhai graddfa fechan).

Mae darpariaeth gydweithredol graddfa fawr wedi'i chanolbwyntio mewn nifer fechan o sefydliadau yng Nghymru. Canfu'r adroddiadau adolygiad rai cryfderau mewn trefniadau cydweithredol sefydliadau ar lefel weithredol, yn arbennig mewn perthynas ag adeiladu perthynas a chyfathrebu gyda phartneriaid, a gwelwyd nodweddion niferus o arfer da yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol o'r holl adroddiadau'n gwneud argymhellion yn ymwneud â'r graddau y gallai sefydliadau oruchwylio gweithredu

cydweithredol, a darparu cyfeiriad strategol ar ei gyfer. Nododd yr adroddiadau hefyd yr angen am gysondeb yn niffiniad a gweithrediad y prosesau sy'n gysylltiedig â chymeradwyo, monitro ac adolygu partneriaid, gydag asesiad a gyda gwybodaeth i fyfyrwyr.

Mae canfyddiadau'r papur yma'n cymharu'n agos â chanfyddiadau'r papurau perthnasol yn y gyfres *Canlyniadau o archwiliad sefydliadol* ar gyfer sefydliadau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Rhagair

Er mwyn sicrhau bod sefydliadau a rhanddeiliaid eraill yn gallu cael gafael ar wybodaeth amserol am ganfyddiadau'r broses Adolygiad Sefydliadol, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi comisiynu Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) i gynhyrchu cyfres o bapurau gwaith byr yn disgrifio nodweddion o arfer da ac yn crynhoi argymhellion o'r adroddiadau adolygu. Mae'r rhain wedi'u cyhoeddi dan y teitl generig *Canlyniadau o Adolygiad Sefydliadol* (o hyn ymlaen byddwn yn eu galw'n bapurau *Canlyniadau…*).

Mae'r papur wedi'i seilio ar ganfyddiadau adroddiadau'r Adolygiad Sefydliadol a gyhoeddwyd rhwng Hydref 2004 ac Awst 2009. Mae ASA hefyd wedi cyhoeddi dwy gyfres o bapurau dan y teitl generig *Canlyniadau o archwiliad sefydliadol*. Roedd cyfres gyntaf y papurau yma'n defnyddio canfyddiadau adroddiadau'r archwiliad a gyhoeddwyd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon erbyn Tachwedd 2004, tra bo'r ail yn tynnu ar ganfyddiadau'r adroddiadau hynny a gyhoeddwyd rhwng Rhagfyr 2004 ac Awst 2006.

Ystyrir nodwedd o arfer da mewn Adolygiad Sefydliadol yn broses, arfer, neu'n ffordd o drin materion sydd, **yng nghyd-destun y sefydliad penodol**, yn gwella, neu'n arwain at wella, rheolaeth ansawdd a/neu safonau academaidd, a dysgu ac addysgu. Bwriad papurau *Canlyniadau…* yw rhoi cyfarwyddiadau i ddarllenwyr at fannau yn yr adroddiadau a gyhoeddwyd am yr adolygiad lle gallent weld nodweddion o arfer da yn ymwneud â phynciau arbennig. Felly mae pob papur *Canlyniadau…* yn pennu nodweddion o arfer da mewn adroddiadau unigol sy'n gysylltiedig â'r pwnc penodol a'u lleoliad yn y Prif adroddiad. Er bod yr holl nodweddion arfer da wedi'u rhestru, er mwyn osgoi bod yn hirfaith nid ydynt oll wedi'u trafod yn y papur hwn. Yn y rhestr gyntaf ym mharagraff 6, mae'r cyfeiriad cyntaf yn gyfeiriad at y rhestr wedi rhifo/gyda phwyntiau bwled o nodweddion arfer da ar ddiwedd pob adroddiad Adolygiad Sefydliadol, ac mae'r ail gyfeiriad at y paragraffau perthnasol yn Adran 2 y Prif adroddiad. Drwy'r papur cyfan hwn, ceir cyfeiriadau at nodweddion o arfer da yn adroddiadau'r Adolygiad Sefydliadol yn rhoi enw'r sefydliad a rhif y paragraff o Adran 2 y Prif adroddiad.

Dylid pwysleisio bod angen ystyried y nodweddion arfer da a drafodwyd yn y papur hwn yn eu cyd-destun sefydliadol cywir, ac mai'r ffordd orau o edrych ar bob un efallai yw fel sbardun i fyfyrio a datblygu ymhellach yn hytrach na bod yn fodel i'w efelychu.

Er bod ASA yn cadw'r hawlfraint am gynnwys y papurau *Canlyniadau…* mae perffaith hawl i bobl eu lawrlwytho o wefan ASA a'u dyfynnu, gan roi cydnabyddiaeth.

Trefniadau'r sefydliadau ar gyfer ymgysylltu â myfyrwyr a'r byd ehangach: cyflwyniad a throsolwg cyffredinol

1 Mae'r papur hwn wedi'i seilio ar adolygiad o ganlyniadau'r 12 adroddiad Adolygiad Sefydliadol a gyhoeddwyd rhwng mis Hydref 2004 a mis Awst 2009 (gwelwch Atodiad 1, tudalen 19). Yn Atodiad 2 (tudalen 20) gallwch weld nodyn am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynhyrchu hwn a phapurau eraill yn y gyfres hon.

2 Mae gan fyfyrwyr rôl gynyddol bwysig yn nhrefniadau sicrhau ansawdd sefydliadau addysg uwch, ledled y DU. Yng Nghymru, roedd yr Adolygiad Sefydliadol yn ceisio archwilio strwythurau a phrosesau sefydliadau ar gyfer sicrhau bod myfyrwyr wedi'u cynrychioli ar bob lefel, a bod adborth wedi'i gasglu gan fyfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr, ei ddadansoddi a'i weithredu, os yw hynny'n briodol. Lle mae gan fyfyriwr unigol gŵyn am rai agweddau o ansawdd y ddarpariaeth, na ellir ei ddatrys yn anffurfiol, neu lle maen nhw'n dymuno gwneud apêl am ryw agwedd o asesiad eu gwaith, mae gan sefydliadau drefniadau ar gyfer ymdrin â digwyddiadau o'r fath, ac eto, ceisiodd yr Adolygiad Sefydliadol archwilio effeithiolrwydd y trefniadau hyn. Fel arfer roedd yr ymchwiliadau yma wedi'u trin dan nifer o benawdau gwahanol yn yr adroddiadau:

- Cynrychiolaeth myfyrwyr ar lefel strategol a gweithredol
- Adborth gan fyfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr
- Gweithdrefnau'r myfyrwyr ar gyfer gwneud cwynion ac apeliadau

3 Roedd arweiniad ASA i'r timau adolygiad yn gofyn iddynt amlinellu trefniadau sefydliadol ymhob un o'r meysydd yma, a disgrifio'r farn a roddwyd amdanynt gan y sefydliad fel y mae wedi'i mynegi yn y ddogfen hunanwerthusiad. Gofynnwyd i'r timau geisio barn myfyrwyr am effeithiolrwydd trefniadau o'r fath a rhoi sylwadau ar gywirdeb barn y sefydliad, ac i ba raddau yr oedd trefniadau neu weithdrefnau'n briodol, yn ddibynadwy ac wedi'u gweithredu'n gyson. Gofynnwyd iddynt hefyd ganfod unrhyw fylchau neu esiamplau o arferion da, a phenderfynu a oedd tystiolaeth o gyfraniad positif gan y myfyrwyr i sicrhau ansawdd a safonau. O ran gweithdrefnau apelio a chwyno, gofynnwyd i dimau adolygu benderfynu a oedd y sefydliad wedi sicrhau goruchwyliaeth effeithiol ai peidio.

4 Mae ail ran y papur hwn yn mynd i'r afael â darpariaeth gydweithredol, sy'n gallu peri sialensiau penodol wrth reoli ansawdd a safonau. Dan y pennawd yma, arweiniodd ASA ei dimau adolygu i grynhoi natur a graddfa partneriaethau'r sefydliad, er mwyn canfod ymhle'r oedd y cyfrifoldeb am ddarpariaeth o'r fath ac i amlinellu'n ffurfiol y gweithdrefnau a ddogfennwyd, megis y rheiny ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu. Gofynnwyd i dimau nodi unrhyw ymateb yr oedd y sefydliad wedi'i wneud i adroddiadau ASA blaenorol ar ddarpariaeth o'r fath ac amlinellu barn y sefydliad ei hun am effeithiolrwydd ei drefniadau yn y maes hwn. Yna gofynnwyd iddynt gadarnhau a oedd y farn hon yn gywir, ac i ba raddau yr oedd y gweithdrefnau'n gweithio'n dda ac yn gyson. Gofynnwyd iddynt ystyried sut roedd y sefydliad yn cadw at yr arweiniad a roddwyd yn y *Cod ymarfer i sicrhau ansawdd a safonau academaidd mewn addysg uwch, Adran 2: Darpariaeth gydweithredol a dysgu hyblyg a dosranedig (gan gynnwys e-ddysgu) (Cod ymarfer, Adran 2)* a chanfod unrhyw fylchau neu esiamplau o arferion da. I grynhoi, gofynnwyd i dimau adolygu gasglu a oedd y sefydliad yn gwneud gwaith goruchwylio sefydliadol priodol.

5 Mae adroddiadau ymchwiliadau'r adolygiad yn y meysydd uchod yn sail ar gyfer y papur yma.

Nodweddion yr arferion da

6 Mae ystyriaeth o adroddiadau'r Adolygiad Sefydliadol a gyhoeddwyd yn dangos y nodweddion dilynol o arfer da:

Cynrychiolaeth myfyrwyr ar lefel strategol a gweithredol

- proses adolygu'r rhaglen yn cynnwys defnyddio cynrychiolwyr y myfyrwyr a chynrychiolwyr allanol yn y broses [Coleg y Drindod, Caerfyrddin, paragraff 190 ii; paragraffau 57, 62 a 99]
- cyflwyno a datblygu system effeithiol o gynrychiolwyr ysgolion i wella cyfathrebu gyda myfyrwyr a'u cynnwys [Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, paragraff 166 (ail bwynt bwled); paragraffau 72 a 76]
- trefniadau a sefydlwyd gan y Brifysgol i sicrhau cyfranogaeth myfyrwyr mewn prosesau sicrhau ansawdd a phwyllgorau lefel sefydliad [Prifysgol Caerdydd, paragraff 201 (pedwerydd pwynt bwled); paragraff 104]
- cryfhau cynrychiolaeth y myfyrwyr, yn arbennig drwy rolau Cydlynwyr Cynrychiolwyr Myfyrwyr a Chynrychiolwyr Llais Myfyrwyr [Prifysgol Morgannwg, paragraff 269 (ail bwynt bwled); paragraffau 111, 112, 117 a 235].

Adborth gan fyfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr

- yr amrywiol fathau o gysylltiad allanol a gynigir ym mhrofiad dysgu'r myfyriwr [Coleg y Drindod, Caerfyrddin, paragraff 190 iii; paragraffau 109, 111, 137, 141 i 142 a 150]
- y model ar gyfer adeiladu cysylltiadau amlochrog â chyflogwyr sy'n caniatáu amrywiaeth o fanteision, yn cynnwys cyfranogaeth cyflogwyr yng nghynllun y cwricwlwm a chyfleoedd datblygiad staff [Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru, paragraff 160 i; paragraff 81]
- gwaith y Gwasanaeth Cynghori Gyrfaol wrth gynnal Cystadleuaeth Sgiliau'r Myfyrwyr i sicrhau adborth gan gyflogwyr am y sgiliau trosglwyddadwy mae'r myfyrwyr wedi'u dysgu a'r Cynllun Blwyddyn mewn Cyflogaeth [Prifysgol Cymru, Aberystwyth, paragraff 103 v; paragraffau 58 i 59 a 80]
- y bartneriaeth effeithlon rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i wella ansawdd profiad dysgu myfyrwyr [Prifysgol Caerdydd, paragraff 201 (pumed pwynt bwled); paragraff 108].

Darpariaeth gydweithredol

- sefydlu cynhadledd y safonwyr i helpu i gefnogi gwaith yr Uned Ddilysu [Prifysgol Cymru, paragraff 153 ii; paragraffau 98 a 99]
- rhoi gweinyddwr o'r Uned Ddilysu i'r safonwyr er mwyn sicrhau bod ymweliadau'r safonwyr yn drwyadl a chyflawn [Prifysgol Cymru, paragraff 153 iii; paragraffau 99]
- creu cymuned o gwmpas FE2HE-UWIC i gyfoethogi profiad myfyrwyr [addysg uwch] mewn colegau sy'n bartneriaid [Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, paragraff 166 (trydydd pwynt bwled); paragraff 130]

- bwriad ac ymarfer ymrwymiad y Brifysgol i ehangu symudedd ymysg myfyrwyr rhyngwladol fel rhan o'i hymgysylltiad â Phroses Bologna [Prifysgol Abertawe, paragraff 208 (pwynt bwled cyntaf); paragraffau 35 a 152]
- y mecanweithiau sydd ar waith i gynnal safonau academaidd dyfarniadau ar draws y sefydliadau partner [Prifysgol Morgannwg, paragraff 269 (pwynt bwled cyntaf); paragraffau 82-84 a 214].

Cynrychiolaeth myfyrwyr ar lefel strategol a gweithredol

7 Dangosodd yr adroddiadau Adolygiad Sefydliadol bod gan sefydliadau yng Nghymru yn gyffredinol drefniadau effeithiol o gynrychioli myfyrwyr, o gynrychiolaeth ar lefelau rhaglen neu adran, i gynrychiolaeth ar bwyllgorau sefydliadol uwch. Nodwyd nodweddion o arfer da mewn pedwar adroddiad, tra bo argymhellion i'w cael mewn dau adroddiad.

8 Mae'n amlwg bod sefydliadau yng Nghymru'n cymryd cynrychiolaeth myfyrwyr ar y lefelau uchaf o ddifrif. Fel arfer byddent yn gwneud hyn drwy Undeb y Myfyrwyr neu gorff tebyg. Roedd yr adroddiadau i gyd yn nodi cynrychiolaeth myfyrwyr ar gyrff lefel sefydliadol megis seneddau neu gynghorau. Roedd y mwyafrif yn cyfeirio hefyd at aelodaeth myfyrwyr ar is-bwyllgorau y math yma o gyrff lefel uchaf, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud ag ansawdd a safonau, gwasanaethau myfyrwyr, caledi ariannol a phwyllgorau yn arbennig ar gyfer materion yn ymwneud â myfyrwyr. Disgrifiwyd cynrychiolaeth hefyd fel rhywbeth a weithredir drwy rannau eraill o'r mecanweithiau llywodraethu, megis y Bwrdd Rheolwyr neu gorff cyfatebol. Dull arall, llai ffurfiol nag aelodaeth ar bwyllgor oedd cyfarfodydd misol yr uwch reolwyr a swyddogion Undeb y Myfyrwyr, oedd wedi'u cadeirio am y ail gan yr Is-Ganghellor a Llywydd Undeb y Myfyrwyr.

9 Er bod yr holl adroddiadau adolygiad wedi cyfeirio at faterion yn ymwneud â chynrychiolaeth sefydliadol i fyfyrwyr yn gyffredinol, roedd rhai hefyd yn cyfeirio'n uniongyrchol at anghenion cynrychioli penodol myfyrwyr ôl-radd. Er enghraifft, roedd gan un sefydliad gynrychiolydd myfyrwyr ar ei Bwyllgor Ymchwil. Mewn esiampl arall, roedd gan Fwrdd Graddau Ymchwil a sefydlwyd yn ddiweddar Bwyllgor Ymgynghorol y Myfyrwyr Ymchwil oedd ag aelodaeth eang. Roedd trydydd sefydliad, mewn ymateb i adolygiadau allanol, wedi sefydlu Pwyllgor Myfyrwyr Ymchwil oedd yn anfon cynrychiolwyr i ddau bwyllgor lefel uwch. Mewn sefydliad arall, roedd fforymau sail cyfadran wedi'u darparu i gynrychiolwyr myfyrwyr ymchwil ôl-radd gyfarfod â phennaeth ymchwil y gyfadran. Nid oedd cynrychiolaeth myfyrwyr ymchwil i'w gael ymhob sefydliad fodd bynnag, ac mewn un sefydliad nid oedd y myfyrwyr wedi'u cynrychioli ar Bwyllgor Ymchwil, tra bo myfyrwyr ôl-radd mewn sefydliadau eraill yn brin iawn eu gwybodaeth am strwythurau cynrychioli. Mewn un o'r esiamplau hyn, roedd yr adroddiad yn argymell bod y sefydliad yn gwella'r system gynrychioli ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, gyda chreu sianelau adborth annibynnol a gyda gwella rolau amrywiol bwyllgorau wrth ystyried yr adborth a ddarparwyd ganddynt.

10 Llwybr arall i gynrychiolaeth myfyrwyr oedd drwy grwpiau prosiect neu weithgorau a sefydlwyd yn sefydliadol, a chafwyd cyfeiriad positif at y rhain mewn rhai o'r adroddiadau adolygiad. Roedd rhai adroddiadau hefyd yn nodi sut roedd gan fyfyrwyr gyfranogaeth uniongyrchol mewn prosesau sicrhau ansawdd. Roedd y rhain yn cynnwys cyfranogaeth myfyrwyr ar fyrddau astudio, cymeradwyo rhaglenni, monitro blynyddol, adolygiadau

cyfnodol ac adrannol, archwiliadau ysgol, ac achrediad cyrff proffesiynol a gweithgorau. Mewn un achos, roedd trefniadau sefydliad i sicrhau cyfranogaeth myfyrwyr mewn prosesau sicrhau ansawdd (er enghraifft mewn cymeradwyo rhaglenni a gwerthusiad ac adolygiad blynyddol) ac i sicrhau cynrychiolaeth ar bwyllgorau lefel sefydliad wedi'u nodi fel nodwedd o arfer da, ac arfer da arall oedd ei bartneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr [Prifysgol Caerdydd, paragraff 104]. Mewn achos arall, gwelwyd arfer da hefyd yng nghyfranogaeth y myfyrwyr mewn proses adolygu rhaglenni [Coleg y Drindod, Caerfyrddin, paragraff 99].

11 Ar lefel weithredol, roedd llai o debygrwydd rhwng y trefniadau i gynrychioli myfyrwyr. Roedd amrywiaeth hefyd yn y derminoleg a ddefnyddiwyd, gan y sefydliadau ac yn yr adroddiadau adolygiad. Weithiau roedd y gynrychiolaeth wedi'i gweithredu drwy bwyllgorau ymgynghorol staff-myfyrwyr, neu gyrff tebyg, neu drwy bwyllgorau rhaglen, adran neu ysgol. Mae'n amlwg bod dwy lefel o gynrychiolaeth weithredol yn gyffredinol: un oedd yn gweithredu'n fwy uniongyrchol mewn perthynas â rhaglenni astudio ac un oedd yn gweithredu ar lefel ysgol neu gyfadran. Roedd yr amrywiaeth yn strwythurau'r pwyllgorau sefydliadol a chyfundrefn enwau ar y lefel olaf yma'n cymhlethu'r darlun cyfan hefyd.

12 Fodd bynnag, mewn rhyw ffurf, roedd y mwyafrif o adroddiadau adolygiad yn nodi bodolaeth cynrychiolaeth ar lefel adran neu raglen. Mewn rhai achosion, roedd cynrychiolaeth o'r fath wedi'i ymgorffori mewn deddfiadau neu wedi'u diffinio fel disgwyliad drwy lawlyfr sicrhau ansawdd. Roedd nifer o sefydliadau'n caniatáu rhywfaint o amrywiaeth mewn trefniadau union gywir er mwyn cyd-fynd ag amgylchiadau unedau academaidd penodol. Roedd un sefydliad yn caniatáu hyblygrwydd mewn ffurfio pwyllgorau ymgynghorol staff-myfyrwyr i ymateb i anghenion amrywiol grwpiau myfyrwyr ac roedd hi'n amlwg bod y mecanwaith yma'n gweithio gyda chymeradwyaeth staff a myfyrwyr. Roedd yr olaf yn gallu rhoi esiamplau o faterion a godwyd ac a gafodd eu trin yn foddhaol. Er bod yr adroddiadau'n cael y gynrychiolaeth ar y lefel weithredol yn effeithiol i bob pwrpas, nodwyd amrywiaeth yn eu llwyddiant mewn rhai achosion, yn arbennig ar lefelau ysgol neu gyfadran neu ar gyfer is-setiau o fyfyrwyr megis y rheiny mewn partneriaid cydweithredol, rheiny sy'n astudio'n rhan amser, neu ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-radd (gwelwch uchod). Fodd bynnag, cafwyd bod rhai sefydliadau'n sicrhau cynrychiolaeth effeithiol i fyfyrwyr cydweithredol ar lefel rhaglen drwy sicrhau presenoldeb systemau o gynrychioli yn eu sefydliadau partner, er mwyn caniatáu i fyfyrwyr leisio eu barn.

13 Yn allweddol i systemau cynrychioli llwyddiannus yn aml iawn, yn arbennig ar y lefelau uchaf, y mae perthynas y sefydliad gydag Undeb y Myfyrwyr. Roedd y mwyafrif o adroddiadau'n dangos naill ai bod cynrychiolaeth lefel uchel wedi'i weithredu drwy, neu ei fod wedi'i gefnogi'n weithredol gan, Undeb y Myfyrwyr a'i swyddogion. Roedd perthnasau cynhyrchiol wedi'u cefnogi gan y math o gyfarfodydd anffurfiol sydd wedi'u nodi uchod, ac roedd rhai adroddiadau'n nodi bod cynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr yn cael eu trin fel aelodau llawn o bwyllgorau neu fel partneriaid gan y sefydliad. Roedd gan sefydliadau eraill aelod o staff oedd yn ymroddedig i waith cysylltu ac yn gwneud i'w fyfyrwyr deimlo eu bod yn chwarae rhan arwyddocaol mewn cyfrannu at bolisi ac arfer sefydliadol yn gyffredinol. Mewn dau sefydliad, roedd cynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr yn cadeirio rhai cyfarfodydd gyda staff sefydliadol lefel uwch. Roedd un o'r

ychydig argymhellion ar gyfer gweithredu yn y maes yma'n ymwneud â dibyniaeth sefydliad ar fyfyriwr unigol i fynychu nifer fawr o bwyllgorau sefydliadol.

14 Mae'n amlwg bod sefydliadau'n ymwybodol bod angen sicrhau effeithiolrwydd eu systemau cynrychioli ac yn ceisio gwella eu trefniadau yn y maes yma. Roedd y mwyafrif o'r adroddiadau'n disgrifio gwelliannau i systemau cynrychioli myfyrwyr, oedd yn aml yn cynnwys hyfforddi myfyrwyr fel eu bod mewn gwell sefyllfa i gyflawni eu rôl gynrychiadol. Weithiau, roedd hyfforddiant o'r fath yn syrthio'n rhannol neu'n gyfan gwbl ar Undeb y Myfyrwyr; naill ai mewn cydweithrediad ag Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr (Cymru) neu gyda staff y sefydliad megis penaethiaid cyfadran. Ystyriwyd cyfathrebiadau da gyda chyrff myfyrwyr yn elfen bwysig hefyd mewn gwella cynrychiolaeth a soniwyd am amrywiaeth o ddulliau i sicrhau hyn. Roedd y rhain yn cynnwys cyhoeddi taflenni, llawlyfrau myfyrwyr a gwefannau. Mewn un achos, roedd hyfforddiant wedi'i gysylltu â rôl cynrychiolwyr ysgol a delir, sydd wedi'u sefydlu i wella cynrychiolaeth ar lefel ysgol. Adroddwyd bod cynrychiolwyr o'r fath yn frwdfrydig am eu rôl, a chafwyd bod hyn yn nodwedd o arfer da [Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, paragraff 72]. Roedd sefydliad arall yn rhedeg cynllun o gynrychiolwyr 'llais myfyrwyr' a delir, oedd yn gallu sicrhau bod pryderon wedi'u dwyn yn gywir i lefel y gyfadran. Roedd gwella cynrychiolaeth myfyrwyr effeithiol drwy'r rhain a rolau eraill, wedi'u hadfywio a'u cefnogi gan Gydlynydd Cynrychiolydd y Myfyrwyr sefydliadol, wedi'i ystyried fel nodwedd o arfer da. [Prifysgol Morgannwg, paragraff 117].

15 Roedd yr adroddiadau adolygiad yn nodi ymwybyddiaeth eang ymysg myfyrwyr o'u trefniadau cynrychiolaeth gyda dim ond rhai eithriadau. Fel arfer, roedd myfyrwyr a'u cynrychiolwyr yn ymddangos fel petaent yn ystyried y trefniadau hyn yn bositif. Roedd nifer o adroddiadau'n nodi bod cynrychiolaeth ac adborth myfyrwyr wedi arwain at newidiadau buddiol, er enghraifft, gydag oriau agor y llyfrgell.

Adborth gan fyfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr

16 Canfu'r adroddiadau Adolygiad Sefydliadol bod gan sefydliadau, o siarad yn eang, ffyrdd effeithiol o gasglu a defnyddio adborth gan fyfyrwyr. Disgrifiwyd cyflogwyr a budd-ddeiliaid allanol eraill megis cyrff proffesiynol, statudol a rheoli (PSRB), fel rhai sy'n cyfrannu drwy amrywiol fecanweithiau, ond roedd y defnydd a wneir o adborth gan raddedigion ar gam cychwynnol mewn nifer o sefydliadau. Nodwyd nodweddion o arfer da mewn pedwar adroddiad, tra bo argymhellion i'w cael mewn dau adroddiad.

17 Nodwedd amlwg o'r pwnc yma yw amrywiaeth y rhyngweithio gyda myfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr a gafodd eu trafod yn yr adroddiadau adolygu. Roedd y rhain yn amrywio o wahanol holiaduron a chyfraniadau cyn-fyfyrwyr i lywodraethu, i gyfranogaeth cyflogwyr mewn datblygu sgiliau trosglwyddadwy. Mae gorgyffwrdd hefyd gyda'r adran flaenorol ar gynrychiolaeth myfyrwyr, ffordd amlwg arall sydd gan sefydliadau o gasglu adborth gan eu myfyrwyr.

18 Roedd pob sefydliad yng Nghymru'n casglu adborth gan eu myfyrwyr, o leiaf drwy eu systemau cynrychiolwyr myfyrwyr (gwelwch yr adran flaenorol). Roedd yr adroddiadau adolygiad hefyd yn cyfeirio'n aml at holiaduron, yn arbennig mewn cysylltiad â monitro modiwlau, a gyda monitro darpariaeth gwasanaeth canolog. Roedd adroddiadau adolygiad mwy diweddar yn nodi'r defnydd a wneir o Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol

(AMC) fel ffynhonnell arall ar gyfer cael adborth. Roedd ymatebolrwydd sefydliadau i adborth wedi'i nodi'n ffafriol hefyd mewn nifer o adroddiadau, ac mewn un achos roedd trefniadau sefydliad i sicrhau ac ymateb i adborth myfyrwyr wedi'i ystyried yn dystiolaeth o bartneriaeth effeithlon rhwng y sefydliad ac Undeb y Myfyrwyr i wella profiad dysgu myfyrwyr [Prifysgol Caerdydd, paragraff 108]. Roedd cyflogwyr a budd-ddeiliaid allanol eraill megis PSRB yn cyfrannu sylwadau drwy amrywiaeth eang o fecanweithiau, ac roedd symudiadau'n digwydd mewn rhai sefydliadau i ddarparu cydlyniad canolog ar gyfer hyn. Gwnaethpwyd defnydd llawer llai o raddedigion ar gyfer sicrhau cyfraniad tuag at welliant ac ychydig iawn o dystiolaeth a gafwyd o wthio strategol cryf i gydlynu gweithgareddau yn y maes yma.

19 Roedd gan sefydliadau systemau adborth ar waith i fyfyrwyr werthuso modiwlau, yn fwyaf aml drwy holiaduron, er bod dulliau eraill, megis grwpiau ffocws a phwyllgorau ymgynghorol staff-myfyrwyr, wedi eu crybwyll hefyd yn yr adroddiadau adolygiad. Roedd barn sefydliadau'n amrywio mewn perthynas â'r gwerth sydd i gael ei roi ar gysondeb wrth weinyddu holiaduron modiwl. Roedd systemau monitro un sefydliad wedi pennu amrywiaeth yn y ffordd y cesglir adborth, gan gynnwys hwnnw a gesglir gan fyfyrwyr mewn partneriaid cydweithredol, ac wedi gweithredu i gael gwared â'r anghysondeb. Roedd sefydliad arall yn caniatáu i holiaduron modiwl a rhaglenni gael eu llunio a'u gweinyddu ar lefel ysgol, gan roi system gyfatebol yn ei lle i alluogi triongli, gan gynnwys cadarnhau effeithiolrwydd eu trefniadau drwy fonitro ac adolygu blynyddol a thrwy holiadur sydd wedi'i anelu at gynrychiolwyr myfyrwyr newydd. Roedd sefydliad pellach yn adnewyddu ei ffurflen werthuso modiwl safonol mewn ymateb i feirniadaeth myfyrwyr o'r amrywiaeth a'r fformat cyfredol. Roedd amrywiaeth yn y ffordd y cesglir adborth wedi arwain at argymhelliad i bennu a rhannu arferion da mewn dulliau effeithiol yn y maes hwn. Yn ogystal â defnyddio holiaduron i sicrhau adborth am fodiwlau, roedd rhai sefydliadau'n eu defnyddio nhw mewn cysylltiad â gwerthuso rhaglenni, efallai wrth i fyfyrwyr ymadael â'r sefydliad. Mewn un esiampl, roedd canlyniadau'r holiadur ymadael wedi'u crynhoi mewn adroddiad gan y Cofrestrydd i'w ystyried gan unedau cefnogi ac ysgolion, a ymatebodd drwy eu cynlluniau gweithredu blynyddol.

20 Y tu hwnt i'r mecanweithiau hynny oedd wedi'u hanelu'n benodol at brofiad lefel rhaglen a modiwl, nodwyd ystod amrywiol o arolygon mewnol eraill yn yr adroddiadau adolygiad. Fel arfer, roedd y rhain yn ymwneud â lefelau boddhad gyda gwasanaethau penodol a ddarperir yn fewnol, megis cyfleusterau cyfrifiadurol neu lyfrgell. Mewn rhai achosion, doedd hi ddim yn eglur pa mor eang oedd y materion oedd yn derbyn sylw mewn arolygon o'r fath, ond roedd nifer yn cwmpasu mwy nag un gwasanaeth penodol. I'r gwrthwyneb, roedd holiaduron eraill yn fwy cyfyngedig eu cwmpas, er enghraifft y rheiny sydd wedi'u cyfeirio at y profiad blwyddyn gyntaf neu brofiad cychwynnol myfyrwyr o ran derbyn gwybodaeth wrth gychwyn. Mewn dau achos, gwnaethpwyd dadansoddiad ymchwil ffurfiol o ganlyniadau'r adolygiad. Yn gyffredinol, roedd yr adroddiadau'n dangos bod sefydliadau'n gwneud defnydd sylweddol o holiaduron i samplu barn myfyrwyr gyda rhai sefydliadau'n amlwg yn ystyried goblygiadau posibl blino ar arolygon neu holiaduron. Mewn ymateb, roedd un sefydliad yn datblygu ffyrdd arloesol eraill o gasglu adborth, gan gynnwys un sydd wedi'i fodelu ar yr ystafell ddyddiadur a ddefnyddir mewn rhaglenni realiti ar y teledu, ac adroddwyd bod hyn wedi cynhyrchu ymateb brwdfrydig.

21 Roedd y mwyafrif o adroddiadau adolygiad yn disgrifio'r ffordd ddifrifol y mae sefydliadau'n ystyried canlyniadau o'r AMC fel safbwynt ychwanegol ar farn eu myfyrwyr. Er enghraifft, canfu un sefydliad faterion a ddatgelwyd yn yr AMC nad oeddent yn cael eu datgelu gan ei systemau ei hun. Canfuwyd bod sefydliad arall yn defnyddio'r AMC i'w feincnodi ei hun yn erbyn sefydliadau eraill, gan beri trafodaeth ar lefel y senedd. Aeth rhai sefydliadau ati i gael dadansoddi eu canlyniadau gan eu huned datblygiad addysgol i hysbysu trafodaeth mewn pwyllgorau academaidd uwch. Roedd un argymhelliad a wnaed mewn perthynas ag adborth myfyrwyr yn nodi bod y sefydliad, wrth geisio rheoli agweddau amrywiol o adborth myfyrwyr, yn cynnwys canlyniadau'r AMC, wedi dosbarthu cyfrifoldebau penodol i nifer o gyrff. Roedd yr adroddiad yn argymell bod y sefydliad yn 'sicrhau bod gwaith y gwahanol is-grwpiau wedi'i gydlynu'n ddigonol, er mwyn cael canlyniadau amserol'.

22 Nodwedd bwysig o systemau adborth myfyrwyr yw'r ffordd y mae ymatebion sefydliadol i adborth o'r fath yn cael eu cyfleu i fyfyrwyr. Yn y cyswllt hwn, roedd yr adroddiadau adolygiad, o'u cymryd yn gyfan, yn llai positif am fodolaeth neu ddefnydd mecanweithiau ffurfiol i sicrhau hyn. Roedd nifer o adroddiadau'n cyfeirio at y cyfleoedd i ymateb i fyfyrwyr drwy systemau ymgynghorol (gwelwch yr adran flaenorol) ac, yn llai ffurfiol, drwy staff hygyrch ac ymatebol. Mewn un sefydliad, er bod cofnodion cyfarfodydd ar gael, cadarnhaodd myfyrwyr eu bod fel arfer yn dod i wybod am ymatebion i adborth drwy weld newidiadau'n cael eu gwneud, yn hytrach na thrwy unrhyw broses systematig. Roedd sefydliad arall yn cydnabod '[nad] oedd system ffurfiol ar gyfer hysbysu'r corff myfyrwyr yn arferol o newidiadau a wnaed o ganlyniad i'w hadborth…'. Ychydig iawn yr oedd adroddiadau eraill yn cyfeirio at yr agwedd hon.

23 Grŵp o fyfyrwyr y gellid eu hanwybyddu mewn perthynas â chasglu adborth yw'r rheiny nad ydynt ar y campws yn gorfforol, am eu bod yn astudio naill ai drwy ddarpariaeth dysgu o bell, neu drwy bartneriaid cydweithredol. Roedd rhai adroddiadau adolygu'n cyfeirio at adborth a gasglwyd yn benodol gan fyfyrwyr mewn sefydliadau partner, yn arbennig drwy holiaduron modiwl. Roedd un adroddiad yn cyfeirio at y ffaith fod gan y sefydliad fersiynau o'i arolwg boddhad wedi'i deilwra i siwtio dysgwr o bell a dysgwyr sy'n astudio mewn partneriaid cydweithredol, yn ogystal â sicrhau bod y ddau'n cyfrannu at holiaduron diwedd modiwl. Drwy'r dulliau hyn, gallai'r sefydliad sefydlu bod lefelau uchel o foddhad yn bodoli ymysg ei ddysgwyr o bell.

24 Roedd y defnydd a wneid o adborth gan raddedigion ar gam cynnar yn sefydliadau Cymru. Roedd y mwyafrif o adroddiadau adolygu'n cofnodi cydnabyddiaeth gan sefydliadau bod modd gwella'r defnydd o adborth a geir gan gyn-fyfyrwyr, neu y gellid cofnodi absenoldeb unrhyw sylw ar y pwnc yn y ddogfen hunanwerthusiad sefydliadol. Gydag un eithriad, doedd dim adroddiad yn disgrifio unrhyw fath o gasglu gwybodaeth yn systematig y tu hwnt i ddadansoddi cyrchnodau cyntaf ymadawyr o ddata arolwg addysg uwch. Roedd yr eithriad yn cyfeirio at amrywiaeth o fecanweithiau a ddefnyddir i gasglu adborth ar gyfer digwyddiadau monitro ac adolygu penodol ac yn dyfynnu esiampl o arolygu cyn-fyfyrwyr fel rhan o'r mewnbwn i'r adolygiad cyfnodol o raglen ôl-radd. Nodwyd nifer fechan o sefydliadau fel rhai sydd â chyfathrebiadau da gyda'u cyn-fyfyrwyr, ond ni chawsent eu disgrifio fel rhai sy'n eu defnyddio'n rheolaidd i gael gafael ar adborth. Yn y cyd-destun hwn, roedd nifer o adroddiadau eraill yn nodi bwriadau sefydliadau i wella perthynas â'u cydfyfyrwyr y gallent sicrhau adborth ganddynt.

25 Roedd graddfa'r adborth a gasglwyd gan gyflogwyr yn amrywiol, yn dibynnu, er enghraifft a oedd y rhaglenni'n alwedigaethol mewn unrhyw ffordd. Mae'n ymddangos bod yr adroddiadau adolygiad wedi ystyried adborth cyflogwyr yn ei ystyr eang. Er enghraifft, gwelwyd nodwedd o arfer da yn y maes hwn yn y gyfranogaeth a sicrheir gan gyflogwyr mewn Cystadleuaeth Sgiliau Myfyrwyr a redir gan wasanaeth cynghori gyrfaol. Roedd hon wedi'i defnyddio fel ffordd o sicrhau adborth gan gyflogwyr ar lwyddiant y myfyrwyr i ddysgu sgiliau trosglwyddadwy [Prifysgol Cymru, Aberystwyth, paragraffau 58 a 59]. Roedd sefydliadau eraill yn edrych ar adborth cyflogwyr yn eang fel hyn hefyd. Er enghraifft, roedd un adroddiad yn dyfynnu'r farn a fynegwyd gan y sefydliad bod 'ysgolion academaidd yn gwneud ymdrechion sylweddol iawn i sefydlu a chynnal cysylltiadau [gyda chyflogwyr] sy'n briodol i'w cwricwlwm, ymchwil a gweithgareddau eraill'.

26 Weithiau roedd yr adroddiadau adolygiad yn darparu disgrifiadau mwy manwl o fathau arbennig o gyfranogaeth gan gyflogwyr, er enghraifft, cynrychiolaeth mewn prosesau ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni. Roedd mathau eraill o ymgysylltiad â chyflogwyr yn cynnwys cyfranogaeth cyflogwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon wrth gyfweld a dethol myfyrwyr; ymgysylltiad drwy PSRB; cyfranogaeth cyflogwyr mewn trefniadau dysgu wedi'u seilio ar waith megis mewn Graddau Sylfaen neu yn y rhaglen GO Wales [Cyfleoedd i Raddedigion Cymru], neu drwy gyfranogaeth cyflogwyr ar rai pwyllgorau cynghori ysgolion. Nododd un neu ddau o adroddiadau geisiadau i roi cyfeiriad strategol i'r gweithgaredd yma, er enghraifft drwy sefydlu Pwyllgor Cyflogaeth, Menter a Thrydedd Genhadaeth a Grŵp Tasg Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth gan gyflogwyr a'r rhaglen GO Wales. Canfu dau adroddiad arfer da yn y maes yma. Canfu'r cyntaf o'r rhain bod y sefydliad wedi dangos cydweithio effeithiol gyda grwpiau amrywiol o gyflogwyr a budd-ddeiliaid allanol eraill i wella profiad y myfyrwyr, er enghraifft drwy adolygiad blynyddol, panelau dilysu ac adolygu pum mlynedd, drwy ddysgu mewn lleoliadau profiad gwaith ac fel darlithwyr sy'n ymweld [Coleg y Drindod, Caerfyrddin, paragraff 111]. Mewn ail adroddiad, gwelwyd arferion da yn y 'model [sefydliadol] ar gyfer adeiladu cysylltiadau amlochrog gyda chyflogwyr…sy'n sicrhau amrywiaeth o fanteision, yn cynnwys cyfranogaeth y cyflogwyr yng nghynllun y cwricwlwm a chyfleoedd datblygiad staff' [Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru, paragraff 81].

Gweithdrefnau'r myfyrwyr ar gyfer gwneud cwynion ac apeliadau

27 Canfu'r adroddiadau Adolygiad Sefydliadol bod gan sefydliadau yng Nghymru, yn gyffredinol, bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau myfyrwyr a oedd yn effeithiol. Gan fwyaf, canfuwyd bod myfyrwyr yn ymwybodol o wybodaeth yn ymwneud â'r gweithdrefnau yr oedd yn rhaid eu dilyn. Nid oedd nodweddion o arfer da wedi'u hamlygu mewn perthynas â'r maes yma, er bod un adroddiad wedi gwneud argymhelliad.

28 O ganlyniad i newid diweddar neu ddisgwyliedig yn y berthynas gyda Phrifysgol Cymru, roedd nifer o sefydliadau newydd ddiwygio, neu'n ystyried gwneud diwygiadau i, weithdrefnau ar gyfer cwynion ac apeliadau. Ar ddechrau'r cyfnod adolygu, Prifysgol Cymru oedd yr awdurdod pennaf ar gyfer apeliadau'n ymwneud â'i dyfarniadau. Yn gyffredinol, roedd cwynion yn cael eu trin gan sefydliadau cyswllt neu sefydliadau aelod, ond roedd hi'n bosibl gwneud apêl i Fwrdd Academaidd Prifysgol Cymru. Yn dilyn hyn,

pasiwyd yr awdurdod yma i'r sefydliadau unigol. Ffactor ychwanegol oedd cyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig o'r *Cod ymarfer i sicrhau ansawdd a safonau academaidd mewn addysg uwch, Adran 5: Apeliadau academaidd a chwynion myfyrwyr ar faterion academaidd* (2007) *(Cod ymarfer, Adran 5)* a chyflwyno Swyddfa'r Barnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch. Cyfeiriodd nifer o adroddiadau at rôl Swyddfa'r Barnwr Annibynnol. Mae cyfeiriad amlwg mewn rhai adroddiadau at y ffaith bod y cyfle wedi'i gymryd i symleiddio gweithdrefnau wrth eu hadolygu.

29 Canfu'r adroddiadau adolygiad bod gan sefydliadau yng Nghymru weithdrefnau ffurfiol i ymdrin â chwynion ac apeliadau myfyrwyr, wedi'u llywio gan eu rheoliadau academaidd. Roedd yr adroddiadau'n nodi'n aml fod sefydliadau'n ystyried y *Cod ymarfer, Adran 5* yng nghynllun a gweithrediad eu gweithdrefnau. Roedd yr adroddiadau i gyd yn nodi, naill ai'n amlwg neu'n ymhlyg, bod cwynion am ansawdd y ddarpariaeth wedi'u trin ar wahân i apeliadau yn erbyn penderfyniadau academaidd. Roedd rhai o'r adroddiadau'n disgrifio ar ba sail y gellid gwneud apeliadau ac roedd dau'n nodi nad oedd caniatâd i wneud apeliadau ar sail anghytundeb gyda barn academaidd. Nododd yr adroddiadau hefyd bod gweithrediad y gweithdrefnau cwynion ac apeliadau wedi'u monitro gan neu ar ran pwyllgor sefydliadau uwch. Nodwyd bod sefydliadau'n rhoi cyhoeddusrwydd i'w gweithdrefnau i staff a myfyrwyr, drwy lawlyfrau a gwefannau. Roedd nifer o adroddiadau'n rhoi sylwadau cadarnhaol ar reoli gweithdrefnau'n effeithiol, ac roedd casgliadau o'r fath wedi'u cefnogi'n aml iawn mewn nifer o ffyrdd gan y myfyrwyr eu hunain.

30 Canfuwyd amrywiaeth o drefniadau monitro ac adrodd yn ymwneud â chwynion ac apeliadau, ond roedd y rhain yn cynnwys adroddiad cryno fel arfer a gyflwynwyd i bwyllgor ymgynghori uwch bob blwyddyn. Roedd ffynhonnell adroddiadau o'r fath yn amrywiol, yn dibynnu ar union natur y cyrff mewnol sy'n cymryd rhan mewn prosesu achosion. Yn yr un modd, roedd y cyrff yr adroddwyd iddynt yn amrywiol hefyd, ond pan ddisgrifiwyd yr adrodd, roedd y disgrifiad yn gyffredinol o'r sefydliad oedd yn cael ei wneud yn gorfforaethol ymwybodol ac felly'n gallu gweithredu os oedd rhaid. Mae pwysigrwydd y safbwynt canolog yma wedi'i ddangos gan esiampl lle gallai sefydliad bennu amgylchiadau lliniarol eithriadol fel rhywbeth sy'n cyfrannu at gynnydd mewn apeliadau, a gweithredodd mewn ymateb i hyn. Roedd sefydliad arall wedi pennu cynnydd mewn apeliadau aflwyddiannus, ac wedi sefydlu gweithgor i ystyried materion o'r fath, gan gynnwys mor eglur yr amlygwyd y gweithdrefnau cwynion ac apeliadau i fyfyrwyr. Roedd sefydliad pellach, wrth nodi cynnydd mewn cwynion ac apeliadau, er ei fod yn nifer fechan o hyd, wedi penodi Swyddog Cydymffurfio i ymdopi'n well â phrosesu ac i helpu i sicrhau triniaeth gyson.

31 Roedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau adolygu'n cyfeirio'n uniongyrchol at anogaeth neu ddefnydd o ddulliau anffurfiol o ddatrys anghydfod fel ffordd o ostwng y nifer o achosion a gymerir drwy lwybrau ffurfiol. Mae'n ymddangos bod dulliau anffurfiol fel yma wedi'u gwerthfawrogi gan sefydliadau a myfyrwyr: nododd un adroddiad ddymuniad y sefydliad i adeiladu ar gryfder yn ei 'system anffurfiol hir sefydlog'. Roedd adroddiad arall yn dangos bod 'myfyrwyr, yn gyffredinol, yn teimlo bod modd datrys nifer o faterion bach yn foddhaol ac yn anffurfiol drwy rinwedd staff ymatebol sydd ar gael yn hawdd', er bod rhywfaint o wahaniaeth yn amlwg yn y ddealltwriaeth o'r ffordd yr oedd cwynion yn cael eu diffinio'n rhai ffurfiol ac anffurfiol. Roedd trydydd adroddiad yn nodi bod y sefydliad yn ystyried bod y cam anffurfiol yn cynnig cyfle i ddatrys materion gynted ag sy'n bosibl.

32 Roedd nifer sylweddol o adroddiadau adolygiad yn cyfeirio at rôl bositif Undeb y Myfyrwyr mewn cefnogi gweithdrefnau cwynion ac apeliadau. Mewn un sefydliad, disgrifiwyd Undeb y Myfyrwyr fel un sydd â rolau ffurfiol ac anffurfiol a dywedodd y myfyrwyr bod yr olaf yn helpu i ddatrys cwynion. Mewn sefydliad arall roedd Undeb y Myfyrwyr, gydag anogaeth staff uwch, yn gwella ei allu i gefnogi myfyrwyr drwy achosion cwyno ac apelio, ac yn datblygu cronfa ddata o gwynion. Mewn sefydliad pellach, nodwyd bod datrysiad anffurfiol yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr wedi gostwng y nifer o achosion a oedd yn cael eu prosesu'n ffurfiol. Lle'r oedd cysylltiadau da yn bodoli rhwng Undeb y Myfyrwyr a swyddfa'r Cofrestrydd Academaidd, roedd hyn yn cyfrannu at gryfder sefydliadol yn y maes yma, yn arbennig yn y camau a gymerwyd i sicrhau bod myfyrwyr wedi'u hysbysu'n glir am eu hawliau a'u cyfrifoldebau, a'r gweithdrefnau sydd i gael eu defnyddio. Cyfeiriodd un adroddiad at rôl llywydd Undeb y Myfyrwyr fel aelod o banel apeliadau cwynion terfynol.

33 Adroddwyd bod myfyrwyr yn cael gwybod am y gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â chwynion ac apeliadau drwy amrywiaeth o lwybrau, mewn print ac ar-lein. Roedd defnydd gwybodaeth yn aml yn cynnwys llawlyfrau sefydliadol neu ganllawiau i reoliadau sy'n canolbwyntio ar y myfyrwyr, a roddir fel arfer i fyfyrwyr pan fyddent yn cychwyn. Mewn un achos, roedd yr adroddiad adolygu'n nodi'n eglur bod gwybodaeth weithdrefnol ar gael yn y Gymraeg yn ogystal ag yn y Saesneg. Roedd y sefydliad perthnasol hefyd yn bwriadu ei gwneud hi'n amlwg bod hawl gan y myfyriwr i gymryd eu rhan hwy mewn unrhyw wrandawiad drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y mwyafrif o adroddiadau'n cyfeirio hefyd at gysylltiadau ar y we at amrywiaeth o wybodaeth berthnasol, gan gynnwys y rheoliadau sefydliadol. Roedd pob un ond dau o'r adroddiadau'n cadarnhau'n uniongyrchol neu drwy ymhlygiad, bod y myfyrwyr yn gwybod ymhle i ganfod mwy am weithdrefnau cwynion ac apeliadau os byddai'r angen yn codi. Mewn un achos, roedd sefydliad yn bwriadu ymdrin â diffyg ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau cywir ymysg staff ar lefel ysgol drwy gynnal sesiwn hyfforddi.

34 Er gwaethaf y darlun cyffredinol bositif yma o ymwybyddiaeth myfyrwyr, darparu gwybodaeth i fyfyrwyr oedd yr un maes yn y pwnc yma lle'r oedd rhai amheuon wedi'u mynegi gan rai adroddiadau adolygu. Roedd yr unig argymhelliad yn y maes yma'n ymwneud â phroses gymhleth yn ymwneud â defnydd gwybodaeth yr oedd myfyrwyr yn ei chael hi'n anodd ei ddeall. Mewn adroddiad arall, roedd y myfyrwyr yn awgrymu bod angen gwella'r cysylltiadau ar y we rhwng y gwe dudalennau gweinyddu canolog a'r 'parth myfyrwyr'. Roedd rhai adroddiadau'n nodi gwallau neu ddryswch yn yr wybodaeth a ddarparwyd, mewn un achos roedd yn nodi i ba raddau gallai pobl nad ydynt yn eu blwyddyn derfynol apelio i'r Senedd, ac yn y llall roedd yn edrych ar leoliad union gywir rheoliadau ar drefn apeliadau/gwiriad. Mewn un achos, nododd cyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr bod myfyrwyr yn ei chael hi'n anodd weithiau i ganfod gwybodaeth am gwynion ac apeliadau, ond roedd mwyafrif y myfyrwyr a gyfarfu'r tîm adolygu'n teimlo bod gwybodaeth yn hygyrch. Mewn un achos olaf, methodd llawlyfr partner â'i gwneud hi'n glir bod apeliadau i gael eu gweithredu dan weithdrefnau'r sefydliad addysg uwch perthnasol, yn hytrach na rhai'r partner ei hunan.

Darpariaeth gydweithredol

35 Roedd yr adroddiadau Adolygiad Sefydliadol yn darparu darlun cymysg o reolaeth y sefydliadau Cymreig ar eu darpariaeth gydweithredol. Roedd nodweddion o arfer da

wedi'u cysylltu â'r thema yma mewn pedwar adroddiad; fodd bynnag, roedd argymhellion mewn wyth adroddiad.

36 Un nodwedd amlwg o ddarpariaeth gydweithredol yng Nghymru ar amser cyhoeddi'r adroddiadau adolygiad oedd amrywiaeth y genhadaeth sefydliadol mewn perthynas â darpariaeth o'r fath. Un ffactor trosfwaol amlwg oedd y rôl a chwaraewyd gan Brifysgol Cymru a'i chyfranogaeth graddfa fawr yn y maes yma. Y tu hwnt i hynny, roedd gan ddau sefydliad arall ystod fawr a hirsefydlog o gydweithrediad oedd yn amrywio o hyfforddiant ac addysg ôl-orfodol domestig i ddarpariaeth dramor. Ar ben arall y sbectrwm, roedd gan un sefydliad ddarpariaeth gydweithredol gyfyngedig iawn. Mewn rhai achosion, er nad oedd maint darpariaeth o'r fath yn fawr a chymhleth ar amser yr adolygiad, y bwriad oedd ei gynyddu. Roedd llai o sôn yn yr adroddiadau am ddarpariaeth gydweithredol ar lefel ôl-radd, yn arbennig mewn cysylltiad â gwaith ymchwil, nag yr oedd sôn amdani ar lefel israddedig. Dylid nodi bod darpariaeth gydweithredol yn gallu bod yn gymhleth, oherwydd y ffaith ei bod yn cynnwys ystod eang o wahanol fathau o gydweithrediad, heb i'r nifer o fyfyrwyr cofrestredig fod yn fawr mewn termau absoliwt. Heblaw darpariaeth ag iddi ddyfarniadau, mae'r darlun wedi'i ehangu gan gynhwysiad amrywiaeth o drefniadau cyfnewid, hyrwyddo a threfniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a oedd hefyd yn derbyn sylw dan y pennawd yma yn yr adroddiadau.

37 Gan adlewyrchu'r nifer fechan o ddarpariaeth gydweithredol mewn rhai o sefydliadau Cymru, nododd rhai adroddiadau adolygiad bod strategaeth yn y maes yma ar gam cynnar yn ei datblygiad ac roedd tri'n argymell bod strategaethau'n cael eu sefydlu i ddarparu fframwaith ar gyfer datblygiad pellach. Roedd yr adroddiadau'n rhoi golwg cymysg ar effeithiolrwydd yr oruchwyliaeth ar ddarpariaeth gydweithredol. Roedd rhai adroddiadau'n disgrifio goruchwyliaeth fel rhywbeth a arweinir gan bwyllgor ar lefel sefydliadol. Roedd rhywfaint o sôn am unedau gweinyddol penodol sydd wedi'u clustnodi i ddarparu cefnogaeth i'r math yma o ddarpariaeth, tra bo cefnogaeth wedi'i disgrifio mewn achosion eraill fel cyfrifoldeb penodol y Gofrestrfa Academaidd. Mewn un achos, roedd sefydliad wedi penderfynu cryfhau ei Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol o ganlyniad i adolygiad eang o'i ddarpariaeth. Ar y llaw arall, doedd pwyllgor a oedd yn gyfrifol am oruchwylio cydweithrediadau tramor mewn sefydliad arall ddim wedi'i gefnogi gan gorff oedd yn gwneud rôl debyg i bartneriaethau'r DU neu i ddarpariaeth gydweithredol yn gyffredinol, ac roedd yr adroddiad yn argymell bod y sefydliad yn ystyried sut y gellid sicrhau gwell goruchwyliaeth. Roedd gwendid mewn rhai neu ymhob agwedd o'r oruchwyliaeth ganolog y ddarpariaeth gydweithredol wedi peri bod argymhellion mewn nifer fawr o adroddiadau.

38 Un o nodweddion darpariaeth gydweithredol sy'n gallu arwain at rai anawsterau gyda goruchwyliaeth sefydliadol yw'r ffordd y mae amrywiol rannau o brosesau monitro ac adolygu wedi'u pasio i gyfadrannau neu grwpiau academaidd lefel is. Er enghraifft, mewn system lle mae cyfrifoldebau rheoli ansawdd cyffredinol, gan gynnwys monitro blynyddol, wedi'u dirprwyo i ysgolion, nododd yr adroddiad bod gan hyn y potensial i ostwng amlygrwydd darpariaeth gydweithredol. Roedd hyn yn cyfrannu at argymhelliad i adolygu polisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â rheoli darpariaeth gydweithredol. Roedd diffyg eglurder wrth ddiffinio natur cydweithredu yn ffactor arall sy'n cyfrannu. Mewn achos arall, roedd prinder mwy sylweddol o oruchwyliaeth sefydliadol yn cyfrannu at argymhelliad bod y sefydliad yn adolygu ei allu i gydlynu a goruchwylio gweithgareddau

partneriaeth, fel ei fod 'yn gallu cymryd cyfrifoldeb corfforaethol llawn am ddarpariaeth gydweithredol a'i sicrhau ei hun bod yr holl bartneriaethau'n ddiogel a chynaliadwy'.

39 Roedd yr adroddiadau adolygiad yn gyson o ran eu hymdriniaeth, lle bo'n berthnasol, â darnau safonol y sicrwydd ansawdd academaidd sy'n gysylltiedig â darpariaeth gydweithredol, yn cynnwys cymeradwyo partner a chymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni, er bod pwysau perthnasol yr ystyriaethau yma'n amrywio. Roedd y mwyafrif o'r adroddiadau adolygiad yn nodi datblygiad memorandwm cytundeb fel ffordd ffurfiol o ddiffinio'r berthynas rhwng y sefydliad a'i bartner cydweithredol. Roedd methu â sicrhau memorandwm o'r fath mewn modd amserol yn ffactor oedd yn cyfrannu at dri o'r argymhellion sydd wedi'u nodi uchod. Roedd rhai adroddiadau'n nodi adolygiad amlwg o bartneriaethau cyn adnewyddu memoranda, tra bo llawer mwy wedi gweld diffyg neu wendid yn y prosesau monitro neu adnewyddu partner, hyd yn oed os oedd y bartneriaeth gychwynnol wedi'i sefydlu'n gadarn.

40 Mewn perthynas â chymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni, roedd nifer o adroddiadau adolygu'n nodi bod sefydliadau'n defnyddio yr un prosesau ar gyfer darpariaeth gydweithredol â'r rheiny sydd wedi'u seilio ar y campws, gyda nodweddion ychwanegol weithiau i gymryd i ystyriaeth lefel gynyddol o risg academaidd. Mae'n amlwg bod materion diffiniol, mewn rhai sefydliadau, yn arwain at ansicrwydd ynghylch pa fathau o ddarpariaeth ddylai gael ei chynnwys yng nghwmpas y *Cod ymarfer, Adran 2.* Mewn un sefydliad, nodwyd bod gan y rhyngweithio rhwng y diffyg proses adnewyddu-partner clir a gofynion yr adolygiad rhaglen y potensial i arwain naill ai at anghysondeb yn y ffordd y trinir rhaglenni niferus gyda'r un partner, neu at adolygiadau niferus o rai agweddau o waith yr un partner, ac argymhellodd yr adroddiad bod y sefydliad yn sicrhau goruchwyliaeth sefydliadol effeithiol o ddarpariaeth gydweithredol, ac arferion cyson mewn perthynas â hi. Ychydig o adroddiadau a fanylodd am amrywiaeth y ffurfiau eraill o gydweithrediad sy'n bosibl rhwng sefydliadau, ond roedd un yn manylu ar drylwyredd y ffordd y rheolwyd cyfnewidiadau myfyrwyr a chytundebau hyrwyddo yn ymwneud â mynediadau. Yn y sefydliad yma, roedd nifer fawr o gytundebau o'r fath wedi'u sefydlu dan gyfarwyddyd strategol. Gwelwyd bod y cynlluniau hyn, ac elfennau eraill o ddarpariaeth gydweithredol, wedi'u rheoli'n gadarn gan is-bwyllgor darpariaeth gydweithredol. Gwelwyd hyrwyddiad dilynol symudedd ymysg myfyrwyr rhyngwladol fel nodwedd o arfer da [Prifysgol Abertawe, paragraff 152].

41 Roedd yr adroddiadau adolygiad yn rhoi dipyn go lew o sylw i asesiad ac arholi allanol mewn perthynas â darpariaeth gydweithredol. Tynnodd un adroddiad sylw at bwysigrwydd cysondeb yn y broses benodi arholwyr allanol drwy wahanol gategorïau o ddarpariaeth, ac roedd un arall yn cyfeirio'n eglur at ddefnydd y sefydliad o'r un weithdrefn benodi ar gyfer arholwyr allanol i'r ddarpariaeth gydweithredol ag ar gyfer ei holl raglenni eraill. Aeth un sefydliad ymhellach a, lle bo'n briodol, defnyddiwyd yr un arholwr allanol ar gyfer fersiynau o'r rhaglenni a ddarperir yn fewnol a thrwy bartner. Roedd mecanweithiau sefydliad arall ar gyfer rheoli asesiad mewn sefydliadau partner yn cyfrannu at bennu nodwedd o arfer da. Roedd yr arferion yn cynnwys digwyddiadau traws-safoni, cyfarfodydd rhwng arholwyr allanol a staff partner, a gofyniad amlwg ar ffurflen adrodd yr arholwr allanol i roi sylwadau ar safonau asesiad. [Prifysgol Morgannwg, paragraff 214]. Fodd bynnag, roedd un adroddiad yn wedi pennu prinder eglurder am y ffordd yr oedd y sefydliad 'yn sicrhau bod arholwyr allanol lleol a benodir ar gyfer ei ddarpariaeth tramor yn cael gweld ymarferion, confensiynau a disgwyliadau y DU,

mewn perthynas â safonau academaidd' ac yn annog pobl i fod yn wyliadwrus yn y maes hwn. Mewn perthynas ag asesiad, nododd un adroddiad bod yr holl waith gan fyfyrwyr mewn partneriaid cydweithredol wedi'i farcio eilwaith o fewn y corff ac 'weithiau mae arholwyr allanol wedi cyfeirio at y ffaith fod angen pwysleisio'r defnydd cyson a wneir o brosesau asesu ['r sefydliad]'.

42 Ar lefel rheolaeth weithredol a chyfathrebiad rhyng-sefydliadol y trafodwyd nodweddion mwyaf positif arfer sefydliadol yn ymwneud â darpariaeth gydweithredol. Yn achos rhaglenni sy'n rhoi dyfarniadau, un rôl allai fod yn allweddol yw rôl cysylltiadau cyswllt sefydliadol ac mae unigolion effeithiol sy'n llenwi swyddi o'r fath yn aml yn bwysig mewn cydweithrediadau llwyddiannus. Roedd rolau cysylltu o'r fath mewn sefydliadau yng Nghymru'n dwyn teitlau amrywiol, ond roedd ganddynt nodweddion cyffredin. Dyfynnwyd un sefydliad a ddisgrifiodd staff o'r fath fel rhai sy'n cyflawni 'swyddogaeth hanfodol yn nhermau mentrau datblygiad staff ynghyd â chanolbwyntio ar ddatblygiad cyrsiau ac ar sicrhau fod sylw priodol wedi'i roi i weithrediad materion rheoliadol allweddol ymhob canolfan sydd wedi'i dilysu'. Roedd sefydliad arall yn gofyn i'w 'safonwyr' adrodd i ystod o gyrff; eu hysgol academaidd, y Gofrestrfa Academaidd, y Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol; a phartneriaid sy'n ymweld. Roedd ymweliadau a wnaed â phartneriaid yn cynnwys mynychu cyfarfodydd byrddau arholi a phwyllgorau rhaglenni. Nodwedd o arfer da a nodwyd mewn un sefydliad oedd sefydlu cynhadledd flynyddol a hyfforddiant ymsefydlu perthnasol ar gyfer staff sy'n gwneud y rôl cyswllt yma. Yn ogystal, ystyriwyd yr arfer o gael staff o'r Uned Ddilysu i ddod gyda safonwyr ar ymweliadau fel pe bai'n helpu cysondeb a chysylltiad da gyda sefydliadau [Prifysgol Cymru, paragraffau 98 a 99]. Er gwaethaf y cyfeiriadau cyffredinol positif at y rolau hyn, fodd bynnag, roedd un adroddiad yn nodi cafeat mewn cysylltiad ag ysgol lle'r oedd y rôl yn ddibynnol ar un unigolyn i ymdrin â darpariaeth fawr a chymhleth.

43 Nodwyd mai rheswm blaenllaw am gymryd rhan mewn gweithredu cydweithredol oedd darparu cyfleoedd i fyfyrwyr na fyddai'n eu cael fel arall, fel ffordd o ehangu cyfranogaeth. Mantais bosibl arall oedd y cyfle i staff y partner dderbyn datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd nifer o adroddiadau'n rhoi sylwadau ar farn myfyrwyr a staff mewn partneriaid, yr oedd rhai ohonynt yn berthnasol i gynrychiolaeth myfyrwyr ac yn derbyn sylw mewn adrannau blaenorol o'r papur hwn. Roedd y myfyrwyr mewn un partner yn bositif yn ôl yr adroddiad ynghylch yr ystod eang o faterion cyrsiol yn amrywio o eglurdeb am berchnogaeth y dyfarniad, i ansawdd adborth a'r mynediad parod at staff ac adnoddau dysgu. Roedd staff partner yr un mor bositif ynghylch amrywiol agweddau o'r cydweithredu, gan gynnwys synnwyr cryf o gydraddoldeb mewn partneriaeth. Mewn sefydliad arall, sefydlwyd fforwm ar gyfer ei reolwyr uwch i drafod materion strategol a rheoli, gyda'u staff cyfatebol mewn sefydliadau partner. Roedd ymdeimlad o bartneriaeth wedi'i fynegi mewn esiampl bellach lle'r oedd myfyrwyr yn teimlo eu bod yn fyfyrwyr oedd yn perthyn i'r sefydliad addysg uwch ac yn perthyn i'r partner hefyd. Yn yr achos olaf yma, roedd y teimlad cymunedol oedd wedi'i adeiladu o fewn y bartneriaeth a'r adnoddau sydd ar gael gan y sefydliad cartref, yn cynnwys e-gylchgronau, yn nodwedd o arfer da [Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, paragraff 130]. Roedd gan staff y sefydliad yma hefyd berthynas agos â staff partner, gan rannu'r addysgu, er enghraifft, a gallai holl staff y partner ddefnyddio'r un cyfleoedd datblygu. Roedd y digwyddiadau traws-safoni y cyfeirir atynt uchod yn cyfrannu'n bositif hefyd at ddatblygiad staff partner.

44 Mae gwybodaeth a ddarperir i fyfyrwyr sy'n astudio drwy ddarpariaeth gydweithredol yn nodwedd bwysig arall o'r math yma o ddarpariaeth. Gwnaeth un o'r adroddiadau adolygiad yma argymhelliad yn ymwneud ag absenoldeb manylebau rhaglen mewn sefydliadau partner. Ni allai'r tîm adolygu ganfod staff partner a oedd yn ymwybodol o ddogfennau o'r fath ac roedd hyn yn cysylltu'n amlwg yn ôl at wendid sefydliadol o ran eu defnyddio. Roedd adroddiad arall yn nodi diffygion yn yr wybodaeth a ddarperir gan bartneriaid, gan gynnwys anghysonderau ar drawsgrifiadau a diffygion yn yr wybodaeth a gyhoeddwyd, gan awgrymu bod angen gwella gallu'r sefydliad i arolygu materion o'r fath. Roedd adroddiad pellach o'r farn nad oedd y sylw rhannol o restr ar-lein o bartneriaethau'n cyfateb â disgwyliadau'r *Cod ymarfer* mewn perthynas â chofrestrau partneriaeth. Yn fwy positif, mewn un sefydliad, roedd bwrdd golygyddol newydd ei ffurfio yn mynd i gymryd y cyfrifoldeb am ddefnyddiau a gynhyrchwyd gan sefydliadau partner.

Casgliad ac adolygiad cymharol

45 Mae canfyddiadau'r papur yma'n alinio'n dda â chanfyddiadau'r papurau *Canlyniadau o archwiliad sefydliadol* ar:

- Gynrychiolaeth ac adborth myfyrwyr
- Waith sefydliadau gyda chyflogwyr a chyrff rheoli, statudol a phroffesiynol
- Ddarpariaeth gydweithredol.

46 Canfu adroddiadau'r Adolygiad Sefydliadol gryfderau sylweddol yng nghydnabyddiaeth y sefydliadau o gyfraniad myfyrwyr i'r rheolaeth ar ansawdd a safonau. Mae'r papur yma, a'r papurau *Canlyniadau o archwiliad sefydliadol* ar gynrychiolaeth ac adborth myfyrwyr yn nodi eu bod wedi canfod systemau cynrychioli effeithiol sy'n derbyn cefnogaeth dda yn gyffredinol, yn arbennig ar lefel sefydliadol ac mewn partneriaeth ag Undebau'r Myfyrwyr neu gyrff cynrychioli eraill. Mae darlun cryf yn ymddangos hefyd o gynrychiolaeth ar lefel y rhaglen neu'r adran, gyda sefydliadau'n ymdrechu i wella cynrychiolaeth ar lefel ysgol a lefel cyfadran. Mae'r papur hwn a'r papurau cyfatebol i Loegr a Gogledd Iwerddon yn nodi bod sefydliadau'n cadw llygad ar effeithiolrwydd y gynrychiolaeth a bod angen ei hadnewyddu o gyfnod i gyfnod mewn cydweithrediad â'r myfyrwyr eu hunain, er mwyn sicrhau'r manteision positif sy'n gallu deillio o hyn.

47 Cryfder cyffredinol arall ar draws y ddau sector yw'r defnydd a wneir o adborth y myfyrwyr. Canfu'r adroddiadau adolygiad bod yr adborth yma'n cael ei gasglu mewn amrywiol ffyrdd, ond mai'r dull a ddefnyddiwyd amlaf oedd gyda holiaduron diwedd modiwl a darparu adroddiad amdanynt fel rhan o'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd blynyddol. Cafwyd bod sefydliadau'n gweithio mewn partneriaethau agos a chefnogol â'u Hundebau Myfyrwyr mewn fframweithiau llywodraethu cyfansoddiadol a nodweddion eraill sydd wedi sefydlu'n dda, megis pwyllgorau ymgynghorol staff-myfyrwyr, a defnyddio adborth mewn monitro blynyddol. Byddai dulliau ffurfiol o adborth wedi'u cryfhau'n aml iawn gan berthynas anffurfiol dda gyda staff hygyrch. Byddai systemau wedi'u tanategu'n aml gan hyfforddiant a ddarparwyd i gynrychiolwyr y myfyrwyr. Nid oedd y trefniadau ar gyfer 'cau'r ddolen' drwy roi gwybod i fyfyrwyr beth oedd wedi'i wneud i ymateb i'w hadborth wedi'u datblygu mor dda â hynny bob amser. Mae'r papur *Canlyniadau o archwiliad sefydliadol* ar gynrychiolaeth ac adborth myfyrwyr yn nodi dull

tebyg i reoli'r adborth. Mae darlun o debygrwydd rhwng y ddau sector yn ymddangos hefyd o ran casglu adborth gan raddedigion, ond yn y fan yma doedd y gweithredu ddim wedi datblygu mor dda ac ychydig iawn o yrru strategol oedd y tu ôl iddo.

48 Cafwyd bod ystod eang o ryngweithio gyda chyflogwyr yn digwydd, hyd yn oed mewn un sefydliad, gydag arferion da wedi'u pennu gan raio adroddiadau adolygiad. Er bod y pwnc wedi'i ddehongli'n hyblyg, ychydig iawn o weithredu a welwyd gan rai sefydliadau a fyddai wedi'i ystyried yn darparu adborth gan gyflogwyr. Yn debyg i Loegr a Gogledd Iwerddon, dim ond lleiafswm bychan o adroddiadau a soniodd am agweddau strategol i gasglu adborth gan gyflogwyr, y tu hwnt i ddibynnu ar gysylltiadau gwasanaethau cynghori gyrfaol â chyflogwyr. Trafodir perthnasoedd gyda PSRB hefyd yn y papur yn y gyfres hon ar Fframweithiau ansawdd a threfniadau ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni.

49 Gan siarad yn eang, cafwyd bod gan sefydliadau yng Nghymru weithdrefnau clir ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau gan fyfyrwyr. Wrth ymdrin â gweithdrefnau sefydliadol yn y maes hwn, dangosodd yr adroddiadau adolygiad bod trefniadau yn foddhaol ar y cyfan, ac yn unol â disgwyliadau cenedlaethol, fel y maent wedi'u mynegi mewn adrannau perthnasol o'r *Cod ymarfer*. Nododd yr adroddiadau bod y trefniadau ffurfiol yn glir gan fwyaf ac wedi'u monitro'n ofalus gan bwyllgorau lefel uwch, ac yn aml roeddent wedi'u hatodi gyda gweithdrefnau anffurfiol effeithiol. Roedd nifer o esiamplau o gydlyniad gofalus rhwng sefydliadau a chyrff cynrychioli'r myfyrwyr. Fel arfer, roedd hi'n ymddangos bod myfyrwyr yn ymwybodol o bolisïau sefydliadol neu ffynonellau cymorth neu gyngor, er bod nifer fechan o adroddiadau'n nodi cyfleoedd i wella yn yr wybodaeth a ddarperir i fyfyrwyr.

50 Mae'r papur yma'n nodi bod canfyddiadau'r adroddiadau adolygiad sy'n ymwneud â darpariaeth gydweithredol yn gymysg. Mae gan ddarpariaeth gydweithredol bwrpas strategol pwysig i rai sefydliadau yng Nghymru, ond i'r mwyafrif o'r lleill mae'n weithgaredd gweddol fach, er ei fod yn tyfu o bosib. Felly mae'n anodd darparu darlun ystyrlon o'r ddarpariaeth gyfan. Canfu'r adroddiadau gryfder mewn gwaith a wneir ar lefel weithredol. Nodwyd mor bwysig yw rôl cysylltu gryf ar lefel ddisgyblaethol, fel y mae wedi bod mewn sefydliadau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, mae'r papur yma hefyd yn nodi bod nifer sylweddol o adroddiadau'n pennu argymhellion mewn cysylltiad â'r pwnc yma, yn arbennig mewn cysylltiad â goruchwyliaeth y sefydliad dros ddarpariaeth a diffiniad amserol o rwymedigaeth gytundebol. Mater pwysig penodol yw'r cydbwysedd sydd i gael ei daro rhwng datganoli cyfrifoldeb am ansawdd a safonau gan sicrhau digon o oruchwyliaeth sefydliadol ar y pryd. Mae'r papurau *Canlyniadau o archwiliad sefydliadol* ar ddarpariaeth gydweithredol yn nodi ystod debyg o gryfderau a gwendidau.

Atodiad 1: Yr adroddiadau Adolygiad Sefydliadol

Nodyn

Mae'r adroddiadau Adolygiad Sefydliadol a ystyriwyd yn y papurau hyn wedi'u rhestru isod.

Prifysgol Cymru

Prifysgol Cymru, Casnewydd

Coleg y Drindod, Caerfyrddin[1]

Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru[2]

Prifysgol Cymru, Bangor[3]

Prifysgol Cymru, Aberystwyth[4]

Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan

Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd

Prifysgol Abertawe

Prifysgol Caerdydd

Prifysgol Morgannwg

Prifysgol Fetropolitan Abertawe

[1] Coleg Prifysgol y Drindod erbyn hyn

[2] Prifysgol Glyndŵr erbyn hyn

[3] Prifysgol Bangor erbyn hyn

[4] Prifysgol Aberystwyth erbyn hyn

Atodiad 2: Methodoleg

Mae dadansoddiad o adroddiadau Adolygiad Sefydliadol yn defnyddio'r penawdau a welwch yn Atodiad H *Llawlyfr adolygiad sefydliadol: Cymru* (2003) i rannu'r adrannau Crynodeb, Prif Adroddiad a Chanfyddiadau yn yr adroddiadau Adolygiad Sefydliadol yn feysydd bras. Esiampl o'r Prif adroddiad yw 'Fframwaith y sefydliad ar gyfer rheoli ansawdd a safonau, yn cynnwys darpariaeth gydweithredol'.

Ar gyfer pob adroddiad a gyhoeddwyd, cymerir y testun o'r adroddiad a gyhoeddwyd ar wefan ASA a'i droi'n fformat prosesu geiriau. Caiff y ffeiliau a grëir o ganlyniad i hyn eu gwirio i sicrhau eu bod yn gywir a'u rhannu'n adrannau drwy ddefnyddio codau, gan ddilyn y templed a ddefnyddir i adeiladu'r adroddiadau Adolygiad Sefydliadol. Yna cyflwynir yr adroddiadau i becyn meddalwedd ymchwil ansoddol, QSR NVIVO 8®. Mae'r meddalwedd yn darparu amrediad eang o offer i gefnogi mynegeio a chwilio ac mae'n caniatáu i nodweddion o ddiddordeb gael eu codio ar gyfer ymchwiliad pellach.

Mae beirniadaethau tîm adolygu, y ffordd mae'n pennu nodweddion o arfer da, a'i argymhellion, oll i'w gweld ar ddau bwynt mewn adroddiad Adolygiad Sefydliadol: yn y Crynodeb ac ar ddiwedd y Canfyddiadau; dim ond yn yr olaf, fodd bynnag, y cewch gyfeiriadau at baragraffau yn y Prif adroddiad, ac yn y fan yma y gwelir y sail ar gyfer canfod nodwedd o arfer da, gan gynnig argymhelliad a gwneud beirniadaeth. Cafodd y cyfeiriadau yma eu defnyddio i ganfod nodweddion arfer da ac argymhellion am yr adrannau penodol o'r adroddiad y maent yn cyfeirio atynt.

Caiff papurau *Canlyniadau…* unigol eu llunio gan staff ASA cyfredol a chyn-staff ASA ynghyd ag adolygwyr sefydliadol profiadol. I helpu i lunio'r papurau, sicrheir bod adroddiadau a gynhyrchwyd gan QSR NVIVO 8® ar gael i awduron i ddarparu darlun eang o ddosbarthiad cyffredinol nodweddion o arfer da ac argymhellion mewn meysydd penodol, fel y maent wedi'u gweld gan y timau adolygu.

Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch
Southgate House
Southgate Street
Caerloyw
GL1 1UB

Ffôn 01452 557000
Ffacs 01452 557070
Ebost comms@qaa.ac.uk
Gwefan www.qaa.ac.uk

QAA 336 02/10